

PECYN CYMORTH AMRYWIAETH

Paratowyd gan Melian Dialogue

ar gyfer

Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru

Ariannwyd gan Lywodraeth Cymru



**Cyngor Archifau a
Chofnodion Cymru**
**Archives and Records
Council Wales**



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Cynnwys

1. Beth sydd wedi'i gynnwys yn y Pecyn Cymorth Amrywiaeth?	4
1.1 Sut gallai helpu eich sefydliad	4
1.2 Sut i'w ddefnyddio	4
2 Trosolwg Damcaniaethol: arolwg o gasgliadau Diwylliannol ar gyfer Profiadau Bywyd Go lawn Cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig	5
2.1 Methodolegau ar gyfer arolwg o gasgliadau mewn Archifau, Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd	5
2.1.1 Pwysigrwydd y diben a'r cwmpas	6
2.1.2 Pwyslais ar ehangu'r cymunedau o ddefnyddwyr	6
2.1.3 Digidio a Mynediad Ar-lein	7
2.2. Atgofion Cydweithredol	7
2.3. Lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru	8
2.3.1 Iaith a Hunaniaeth	8
2.3.2 Gwybodaeth Ddiwylliannol a Pharchu Diwylliannau Lleiafrifoedd Ethnig	9
3 Astudiaeth Achos: Casgliadau a Phrosiectau Ymgysylltiad Diwylliannol ar gyfer Cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig	9
4 Modiwlau Amrywiaeth Ethnig i Sefydliadau Diwylliannol	20
4.1 Amrywiaeth Ethnig yn y Sefydliad	20
4.2 Amrywiaeth Ethnig yn y Casgliadau	22
4.2.1 Cynrychiolaeth Awduraeth Amrywiol	22
4.2.1 Cynrychiolaeth o ran Cynnwys	23
4.3 Amrywiaeth Ethnig Defnyddwyr	24
4.3.1 Creu amgylchedd diogel a chroesawgar	24
4.3.2 Adnabod Hybiau Cymunedol	24
4.3.3 Ymgysylltu â myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig	24
4.3.4 Cyfleoedd Ymgysylltu yn y Gymuned	25
4.3.5 Darganfod a Siapio Casgliadau gyda Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru	25
5 Cwestiynau ar gyfer Gwaith Pellach ar Amrywiaeth a Chynhwysiant mewn Sefydliadau Diwylliannol	25
5.1 Sut rydym yn dysgu i ystrydebu a chael ein hystrydebu	26
5.2 Mythau a realiti hanes Cymru a'r Deyrnas Unedig	26
5.3 Deall pobl sydd wedi cael profiad o wahaniaethu	26
5.4 Agweddau Hiliol ac Ethnig	26
5.5 Rheoli Gwahaniaethau	26
5.6 Iaith hiliaeth sy'n newid yn barhaus	27
6 Adnoddau	27

6.1	Adnoddau a Theclynnau Ar-lein.....	27
6.2	Adnoddau Academaidd.....	30
7.	Llyfryddiaeth.....	34
	Gwybodaeth am yr Awduron.....	38

1. Beth sydd wedi'i gynnwys yn y Pecyn Cymorth Amrywiaeth?

Mae'r pecyn cymorth amrywiaeth hwn wedi cael ei gynhyrchu gan Melian Dialogue ar gyfer Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru a'i ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n gweithio fel canllaw cychwynnol ar gyfer rhoi gweithgareddau ar waith i sicrhau bod pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn ymgysylltu â sefydliadau diwylliannol, gan gynnwys archifau, llyfrgelloedd ac amgueddfeydd. Mae'r pecyn cymorth hwn yn cyflwyno:

1. trosolwg damcaniaethol o'r ymchwil sy'n berthnasol i'r cyd-destun,
2. astudiaethau achos o brosiectau'n ymwneud ag amrywiaeth yn y sector diwylliannol,
3. tri modiwl yn canolbwyntio ar wneud sefydliadau diwylliannol a chasgliadau yn fwy amrywiol, a
4. rhestr adnoddau ar-lein ac academiaidd eang iawn at ddibenion ymchwil pellach.

Yn Adran 2, mae'r pecyn cymorth yn cynnwys tystiolaeth academiaidd o ffactorau amrywiol megis dulliau arolygon casgliadau, atgofion cydweithredol a phobl Lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru, a ddylid eu hystyried wrth adeiladu a hyrwyddo casgliadau diwylliannol sy'n amrywiol o ran ethnigrwydd. Mae Adran 3 yn cynnwys rhestr o astudiaethau achos gyda phrosiectau'n cael eu cynnal gan sefydliadau diwylliannol o bedwar ban byd i ymgysylltu a hyrwyddo gweithgareddau gan gymunedau Lleiafrifoedd ethnig. Mae Adran 4 yn cynnwys modiwlau ar agweddau gwahanol o gynnal amrywiaeth mewn sefydliadau a chasgliadau diwylliannol. Rydym yn cyflwyno rhai cwestiynau ymarfer yn Adran 5, y mae modd eu defnyddio mewn gwaith amrywiaeth a chynhwysiant gyda staff a digwyddiadau ymgysylltu gyda chymunedau Lleiafrifoedd ethnig. Mae Adran 6 yn cyflwyno rhestr eang o adnoddau a dulliau ar-lein, ac adnoddau academiaidd, ar gyfer ymchwil pellach.

Gall darllenwyr hefyd ddefnyddio dwy ddogfen arall yn ogystal â'r Pecyn Cymorth Amrywiaeth. Un o'r rhain yw'r ddogfen Methodoleg Arolwg sy'n cyflwyno methodoleg ar gyfer datgelu profiadau go iawn pobl Lleiafrifoedd ethnig mewn casgliadau diwylliannol Cymreig, ac mae hefyd yn cyflwyno dulliau ymarferol megis Taflen Waith Arolwg a Banc Cwestiynau ar gyfer asesu a chofnodi amrywiaeth a chynhwysiant ar lefelau sefydliad, casgliad a defnyddwyr. Y drydedd ddogfen yn y gyfres hon yw'r Map Ffordd ar gyfer Gweithgareddau i'r Dyfodol, sy'n cyflwyno gweithgareddau ledled y sector a gweithgareddau ar sail y sefydliad a fyddai'n fuddiol i sefydliadau diwylliannol a'u defnyddwyr yn y dyfodol agos.

Hoffai Melian Dialogue ddiolch i Is-grŵp Amrywiaeth a Chynhwysiant Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru am eu cydweithrediad ac adborth gwerthfawr ar y prosiect hwn.

1.1 Sut gallai helpu eich sefydliad

Gall y pecyn cymorth hwn helpu i ddechrau ar drafodaethau am amrywiaeth yn yr arferion sefydliadol a phroffesiynol mewn archifau, llyfrgelloedd ac amgueddfeydd yng Nghymru. Gall sbarduno profiadau dysgu sy'n fuddiol i staff a'r cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu. Trwy wneud amrywiaeth a chynhwysiant yn brosiect yn y sefydliad, mae'r pecyn cymorth hwn yn pwysleisio'r agweddau sefydliadol, ymarferol, curadu a defnyddwyr o gynnal casgliadau diwylliannol sydd â'r nod o gynnwys defnyddwyr o bob cefndir ethnig.

1.2 Sut i'w ddefnyddio

Gall sefydliadau archwilio'r astudiaethau achos ar gyfer enghreifftiau cadarn o brosiectau yn y gorffennol a'u heffaith ar gymunedau. Gall sefydliadau hefyd ddefnyddio'r arolwg, a'r rhestr adnoddau hir i gael ymchwil academiaidd manylach i feysydd megis: hanes pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru; ymchwil ar hil a chynrychiolaeth; ymchwil ar reoli casgliadau ar gyfer ymgysylltu â chynulleidfaoedd neu ddefnyddwyr amrywiol; ac adnoddau ar-lein mwy hygyrch

ar gyfer gweithgareddau ymarferol ac ymchwil. Gall sefydliadau gael mewnbwn hanfodol o ran y lefelau ac agweddau gwahanol o gynnal sefydliadau amrywiol o ran ethnigrwydd a chroesawu amrywiaeth ethnig drwy ymyriadau systemig yn hytrach nag ymyriadau ar sail achos.

Yn ogystal, mae'r pecyn cymorth hwn yn cynnwys sawl dull ymarferol megis y Rhestr Derminoleg, Taflen Waith Arolwg Peilot a Banc Cwestiynau Arolwg, a all gael eu defnyddio i arolwg o gasgliadau. Bydd hefyd yn ddefnyddiol i staff casgliadau o ran deall y cynnwys yn ymwneud â phrofiadau bywyd go iawn pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru. Gall y pecyn cymorth gael ei ddefnyddio ar gyfer hyfforddiant staff a gweithgareddau ymgysylltu â defnyddwyr drwy adnoddau ar gyfer y ffordd orau i fynd at gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn eu hardaloedd lleol. Canllaw cychwynnol yw e a fydd yn gallu cael ei ddehongli a'i ddefnyddio ar y cyd â systemau neu arferion presennol, neu er mwyn eu hadolygu.

2 Trosolwg Damcaniaethol: arolwg o gasgliadau Diwylliannol ar gyfer Profiadau Bywyd Go lawn Cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

Yn 2022, mae angen mawr a chymhellant i sefydliadau ymarfer ac eirioli gwrth-hiliaeth. Nododd data cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan o Arolwg Cenedlaethol o'r Boblogaeth ar gyfer 2017 i 2019 fod 5.2% o boblogaeth Cymru eu bod yn rhan o gategorïau Asiaidd, Du, 'grwpiau Cymysg/Sawl Ethnigrwydd' neu 'Grŵp ethnig arall', gyda'r categori Asiaidd yn cynrychioli'r grŵp ethnig mwyaf, sef 2.4% o gyfanswm y boblogaeth ("Ystadegau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth: 2017 i 2019 2020" n.d.). Mae Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb Hiliol 2021 ar gyfer Cymru yn galw ar lywodraethau, cyrff cyhoeddus, busnesau a chymunedau i weithredu dros Gymru gwrth-hiliaeth, mewn ysbryd cyd-greu gyda phobl a sefydliadau ledled Cymru ("Cymru Gwrth-hiliol: Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb Hiliol Cymru" 2021, 5). Mae'r cynllun yn trafod "cyfuniad o ddeialogau agored, critigol a deinamig", gan ddwyn ynghyd ystod o arweinwyr o sectorau gwahanol o'r llywodraeth, y byd academaidd, actifiaeth, undebau, sefydliadau anllywodraethol, grwpiau cymunedol, grwpiau crefyddol gydag unigolion o grwpiau hiliol amrywiol a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru ar gyfer cyd-greu; gyda ffocws clir ar weithredu'r cynllun yn gynaliadwy drwy weithredu ystyrlon, a chan bwysleisio atebolrwydd sefydliadau i bennu systemau gwrth-hiliol (5-6).

Mae'r deialog hwn yn pwysleisio'r broses o symud oddi wrth defnyddio'r term BAME i ddisgrifio cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru. Dengys ymchwil blaenorol fod y term yma yn cyffredinol ac yn ystrydebu profiadau grwpiau amrywiol o gymunedau gyda hanesion a phrofiadau gwahanol i un categori. (Bunglawala, 2019; "An Anti-Racist Wales: The Race Equality Action Plan for Wales" 2021, 20)¹ Felly, mae Llywodraeth Cymru peidio â defnyddio "BAME" a defnyddio "Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig" a "grwpiau lleiafrifoedd ethnig" fel categorïau perthnasol (ibid). Nod y ddogfen hon yw efelychu'r penderfyniad hwnnw drwy ddefnyddio'r termau cywir a derbyn y rhesymeg o ran ystyriaeth ehangach o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru.

2.1 Methodolegau ar gyfer arolwg o gasgliadau mewn Archifau, Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd

Mae sefydliadau diwylliannol megis archifau, llyfrgelloedd ac amgueddfeydd yn cynnal arolygon casglu er mwyn adnabod, dosbarthu a rhoi mynediad i ddeunyddiau diwylliannol. Mae asesiadau ac arolygon casgliadau'n cael eu cynnal mewn sawl ffurf sy'n bodloni sawl diben megis arfarniadau,

¹ Mae'r ddogfen hon yn cyfeirio at y wybodaeth benodol am gymunedau gwahanol ag enwau penodol y cymunedau hynny lle y maent yn wyddys, ac yn cyfeirio at y cymunedau hyn yn eu cyfarwydd fel pobl lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru neu bobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru. Mae termau gwahanol ynghylch hanes cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru wedi'u cynnwys yn y Rhestr Geirfa yn rhan o'r prosiect hwn.

cadwraeth, rheoli ac arddangos. Mae arolygon casgliadau hefyd yn amlygu cryfderau casgliad sefydliad, gan wella ei debygolrwydd o gael cyllid ychwanegol. Mae arolygon casgliadau'n rhan hanfodol o wneud casgliadau yn hygyrch i gymunedau â diddordeb drwy ddatgelu gwybodaeth am y math o ddeunyddiau cynradd ac eilradd sydd ar gael o ran cyd-destun hanesyddol, pwnc neu gysyniad penodol.

Mae astudiaethau ar y methodolegau arolwg a ddefnyddir mewn sefydliadau diwylliannol yn amlygu mai nid dim ond un dull sydd o gynnal arolygon neu asesiadau casgliadau. Mae hyn oherwydd yr amrywiaeth o eitemau, cyllid, gweithlu, prosesu ac arwyddocâd neu ddiben y prosiectau arolwg amrywiol mewn sefydliadau amrywiol (Tabb, 2004, 123; Greene and Meissner, 2005, 222). Mae angen i'r ffocws fod ar berthnasedd eang y prosesau arolygu wrth ddwyn ynghyd arferion gorau o sefydliadau byd-eang. Yn y pecyn cymorth hwn, gall darllenwyr ddod o hyd i adnoddau a dulliau ymarferol a fydd yn helpu sefydliadau i ddechrau neu adolygu eu harferion presennol ynghylch arolwg o gasgliadau sy'n cynnwys deunyddiau'n ymwneud â phrofiadau bywyd go iawn pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig eraill yng Nghymru, wrth ddilyn egwyddorion sy'n cydnabod ac yn parchu nodweddion a sensitifrwyd diwylliannol.

2.1.1 Pwysigrwydd y diben a'r cwmpas

Gweithgareddau "casglu gwybodaeth" yw arolygon ac asesiadau o gasgliadau, sy'n dibynnu ar gasglu data meintiol ac ansoddol mewn ffordd fanwl gywir am eitemau mewn casgliad (Conway a Proffitt, 2011, 7). Felly, mae llwyddiant y prosiect arolwg neu'r prosesau arolygu parhaus yn dibynnu ar hyfforddiant ymlaen llaw y staff arolygu, a datblygu arferion dogfennu effeithlon (ibid, 17). Fodd bynnag, nid yw bodolaeth yr elfennau hyn yn gwarantu y bydd yr amcanion yn cael eu cyflawni. Diben yr arolygon hyn yw pennu amcanion arolygon casgliadau ac, felly, gallant amrywio o ddarganfod ac arfarnu i agweddau'n ymwneud â thai megis cyflwr ffisegol a hygyrchedd eitem. Pan fydd gan yr arolwg ddeilliant gwirioneddol, fel sy'n wir am yr astudiaeth bresennol, mae'r prif amcan yn ymwneud â churadu ac yn seiliedig ar werth ymchwil y casgliad. Golygu hyn fod angen i'r dulliau a ddefnyddir gyfuno dull archwilio gyda theclynnau systemig a fydd yn llywio archwiliad o'r fath. Nid yw'r dull archwilio yn golygu y bydd y gweithwyr casglu yn diystyru cwmpas yr arolygon casgliadau, ond yn hytrach mae'n golygu y dylent geisio gweithio gydag ymwybyddiaeth gyson a thrwy dalu sylw i gwmpas, a sicrhau effeithlonrwydd a chysondeb yn yr arolygon. Yna, dylai'r cwmpas hefyd gael ei lywio gan lefel yr adnoddau dynol ac ariannol, yr amser a'r gofod ffisegol sydd ar gael ar gyfer gwaith casglu (Conway a Proffitt, 2011, 16) ac mae ystyried y gynulleidfa neu'r "defnyddiwr" yn rhan o gwmpas yr arolwg dan sylw (ibid, 13). Gall darllenwyr ddod o hyd i fanylion o ffactorau critigol o ran arallgyfeirio casgliadau ar gyfer cynulleidfa sy'n amrywiol yn ethnig ym Modiwlau 4.2 a 4.3.

2.1.2 Pwyslais ar ehangu'r cymunedau o ddefnyddwyr

Mae arolygon casgliadau hefyd yn hanfodol er mwyn gwella profiad y defnyddwyr. Mae casgliadau diwylliannol yn addas i ddiddordebau amrywiol ar lefelau deallusol gwahanol, o blant oed ysgol i arbenigwyr academiaidd. Felly, mae'n hanfodol i bobl sy'n gweithio ar gasgliadau, sef prif ddefnyddwyr yr adnoddau, ystyried sut mae eu prosesau arolwg o gasgliadau yn gweithio i gyflawni'r profiad mwyaf effeithlon i'r nifer fwyaf o ddefnyddwyr. Mae arolwg o gasgliadau diwylliannol hefyd yn strategaeth sy'n galluogi sefydliadau i fodloni anghenion ehangach defnyddwyr (Conway a Proffitt, 2011, 7) a chydweithio gyda sefydliadau eraill i gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach. (Dooley a Luce, 2010, 110)

Dull posibl o ymdrin â'r broblem gyffredinol o oedi o ran catalogio archifau yw disgrifio'r nodweddion cyffredinol cyn canolbwyntio ar fanylion (Schellenberg, 1965, 112; Greene a Meissner, 2005, 216; Conway a Proffitt, 2011, 9). Drwy hyn, mae'n caniatáu i nifer fwy sylweddol o'r oedi i gael

ei drosglwyddo i gatalogau, gan ehangu'r tebygolrwydd o fod yn fwy amlwg i ddefnyddwyr. Mae wedi cael ei nodi bod yr un rhesymeg yn berthnasol i lyfrgelloedd, lle mae ymchwilwyr o leiaf angen ychydig o wybodaeth am y casgliadau er mwyn penderfynu y gallant wneud gwaith ymchwil (Greene and Meissner, 2005, 237), ac mae hyn yn golygu fod angen i'r sefydliad fod â tharged pwysig o fanteisio i'r eithaf ar hygyrchedd deunyddiau casgliadau (ibid, 240) drwy ddisgrifio "deunyddiau *digonol* [pwyslais ar y gwreiddiol] er mwyn hyrwyddo defnydd" (ibid, 213). Mae blaenoriaethu trosolwg cynhwysfawr dros gatalogio eitemau unigol yn fanwl yn ddull sy'n fuddiol nid yn unig i'r defnyddiwr ond y sefydliad yn bennaf, a all wella hygyrchedd eu casgliadau ac ehangu'r gynulleidfa. Rydym wedi rhoi Taflen Waith Arolwg Peilot i ddarllenwyr yn y pecyn hwn i gynorthwyo gydag arolwg casgliadau cychwynnol. Mae Adrannau II, III a V yn y Banc Cwestiynau hefyd yn eithrio cwestiynau a all gael eu defnyddio i arolwg o gasgliadau drwy holiaduron staff.

Mae'r pwyslais ar anghenion defnyddwyr o ran arolwg o gasgliadau diwylliannol hefyd wedi'i adlewyrchu yn y themâu digido a mynediad ar-lein, a fydd yn cael eu trafod yn yr adran nesaf.

2.1.3 *Digido a Mynediad Ar-lein*

Yn y cyfnod Gwe 3.0, mae digido a mynediad ar-lein i gasgliadau wedi dod yn arfer cyffredin ymysg sefydliadau diwylliannol, ac yn rhan hanfodol o'r fethodoleg arolygu. Mae'r Rhyngwrdd wedi diwygio dealltwriaeth bobl o leoli gwybodaeth, a dulliau lleoli gwybodaeth, a'u disgwyliadau gan sefydliadau i ddarparu gwybodaeth o'r fath (Craven, 2016, 8). Mae astudiaethau'n cytuno fod dull digido strategol yn hanfodol i sefydliadau diwylliannol, nid yn unig oherwydd mae'r defnyddwyr yn disgwyl y cyfleustra y mae mynediad ar-lein a digido yn ei ganiatau (Pflug, 2016, 67; "Unique and Distinctive Collections", n.d.) ond hefyd gan fod digido'r catalog yn creu cyfle i hyrwyddo casgliadau mewn ffordd eang a chyflym heb ei ail (Craven, 2016, 19). Oherwydd hyn, mae digido yn faen prawf hanfodol o ran arolwg o gasgliadau gan fod "casgliad ond yn wirioneddol hygyrch pan gall ymchwilydd ddod o hyd i wybodaeth amdano ar-lein" (Conway a Proffitt, 2011, 19). Felly, dylai "datblygu modelau ar gyfer digido casgliadau arbennig ar raddfa fawr" fod yn rhan hanfodol o'r broses arolygu, ac yn ddeiliant bwriadol ohoni (Dooley a Luce, 2010, 111). Rhywbeth arall sy'n hanfodol i'r broses arolygu ei hun yw ystyried deunyddiau sy'n wreiddiol ddigidol, megis cofnodion digidol ac ar-lein, e-lyfrau, llyfrau sain, celf ar-lein neu ddigidol sydd wedi dechrau cronni mewn casgliadau mewn symiau mwy sylweddol na'r hyn a all gael ei brosesu gyda chymorth adnoddau dynol ac ariannol un sefydliad (Craven, 2016, 21). Yn y Map Ffordd ar gyfer Gweithgareddau i'r Dyfodol, rydym yn canolbwyntio ar botensial presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol fel cyfle cynaliadwy i ymgysylltu ar gyfer sefydliadau diwylliannol o bob maint.

2.2. *Atgofion Cydweithredol*

Mae atgofion cydweithredol yn golygu cyd-rannu ac adrodd digwyddiadau yn y gorffennol, ymysg pobl a chymunedau wnaeth gymryd rhan ynddynt, neu a oedd yn ddioddefwyr o'u herwydd. Mae tensiwn rhwng hanes ac atgofion gan fod hanes yn cynnwys ysgrifennu am y gorffennol ac mae'n gweithredu ag awdurdod, ond mae atgofion yn rhywbeth personol, cydweithredol, diwylliannol a chymdeithasol, yn atgof cymdeithasol o'r gorffennol (Garde-Hansen 2011, 6). Mae hanes wedi bod yn gysylltiedig â phŵer erioed ac wedi cael ei ysgrifennu gan yr amlwg, a'i fod yn fwy gwrthrychol nag atgofion. Mae'r anghydbwysedd yma o ran pŵer hefyd wedi cael ei adlewyrchu mewn ffordd symbolaidd drwy bŵer symbolaidd, "y pŵer i gynrychioli rhywun neu ryweth mewn ffordd benodol" (Hall, 1997, 259). Fodd bynnag, nodwyd fod cymunedau lleiafrifoedd ethnig megis Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ddiwylliannol yn croesawu atgofion personol a diwylliannol ar y cyd tra roedden nhw'n cael eu gwneud yn ddioddefwyr o ran hanes (ibid). Er gwaethaf ei sail ar atgofion personol, mae atgofion cydweithredol hefyd yn elwa o, neu weithiau yn herio, naratif dogfennau, cofnodion ac arteffactau hanesyddol. Felly, mae mynediad i'r wybodaeth hon yn hanfodol er mwyn

herio cyfrifon gwahaniaethol heriol sydd wedi cael eu normaleiddio gan hanes. Dadleuodd Marshall McLuhan (1994) fod y cyfryngau yn estyniadau o atgofion ac roedd ei gysyniad o'r cyfryngau'n ymgorffori llawer o adnoddau o iaith i drydan. Mae casgliadau diwylliannol felly groniadau o atgofion amrywiol sydd weithiau'n gwrthgyferbynnu â'i gilydd, a'r ffordd o herio pŵer symbolaidd y gormeswr yw drwy ail-werthuso'n systemig cynnyrch diwylliannol y gorffennol drwy safbwynt gwrth-hiliol.

Gan drafod bywyd fel plentyn o dras Fasaidd yn tyfu i fyny yn Stevenage yn yr 1970au, noda'r awdur Gary Younge fod cymunedau lleiafrifoedd ethnig yn parhau i arfer eu diwylliant o fewn yr amgylchedd domestig preifat, ond nad oedd modd dysgu am hanes neu ddiwylliant Du Prydeinig yn yr ysgol, gan olygu nad oedd modd iddo herio'r honiadau hiliol yr oedd yn eu hwynebu fel bachgen ysgol (Younge 1999). Felly, mae'r amgylchedd atgofion cydweithredol yn fwy domestig neu'n fwy seiliedig ar y gymuned na sefydliadol. Noda Halbwachs fod atgof cydweithredol yn dod yn gryfach wrth i bobl eraill sydd yn ei gofio ei ategu (Halbwachs 1980, 22-23). Caiff atgofion cydweithredol, neu atgofion grŵp, eu cryfhau wrth i gymuned berthnasol ddod at ei gilydd a chofio ar y cyd, cyd-arsylwi a chadarnhau straeon ar lafar ac yn ysgrifenedig, data gweledol a chofroddion (Halbwachs 1980). Felly, i gymunedau o fewnfudwyr neu ddisgynyddion o gaethweision, gall fod yn heriol cynnal atgof grŵp oherwydd diffyg cysylltiad gyda'r tir, y straeon a'r arteffactau (Halbwachs, 1980, 44) neu gan nad ydynt wedi gallu cadw'r cysylltiad yn fyw oherwydd y gormeswyr oedd yn ystyried cysylltiad y caethweision gyda'u diwylliant ethnig yn fygythiad difrifol i'w hawdurdod (Bressey, 2007). Dengys ymchwil diweddar fod gwahaniaethau diwylliannol yn gwaethgu unigrwydd pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig hŷn ("Connecting with Culture to Reduce Loneliness amongst Ethnic Minority Communities" n.d).

Ar y llaw arall, mae ymrwymiad plant ag ethnigrwydd cymysg i'w cefndir lleiafrif ethnig a'u cysylltiad gyda'u rhiant neu ddiwylliant lleiafrif ethnig wedi bod yn gwanhau wrth i fewnfudwyr hŷn heneiddio a marw (Lievesley, 2010). Mae cynnal rhyngweithiadau grŵp rhwng cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd ethnig yn hanfodol i gofio a chydabod profiadau bywyd go iawn, ac mae cofio hyn yn hanfodol i les meddyliol y cymunedau hyn a balchder diwylliannol.

Mae llawer o brosiectau nodedig i geisio sicrhau bod cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn ymgysylltu â sefydliadau diwylliannol wedi cael eu cynnal ledled y byd; rydym wedi cynnwys 13 o astudiaethau achos yn Adran 3. Mae'r rhan fwyaf o'r prosiectau hyn yn canolbwyntio ar atgofion cydweithredol ac yn gwahodd cymunedau i gofio, rhannu a chymharu eu straeon drwy weithgareddau gan gynnwys grwpiau trafod, prosiectau hanes ar lafar, ymweliadau ag archifau ac arddangosfeydd. Mae'r gweithgareddau hyn yn datgelu'r llw o gyfleoedd ar gyfer ymgysylltu ar lafar â phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig gyda chasgliadau diwylliannol.

2.3. Lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru

2.3.1 Iaith a Hunaniaeth

Mae'n siŵr mai iaith yw'r adlewyrchiad pennaf o ddiwylliant ethnig, ac o ystyried gwladychiaeth, dyma'r cam cyntaf i danseilio diwylliant a hanes pobl drwy uchafu iaith y gwladychwr (Thiong'o, 1986, 16). Mae gwrthdaro ieithyddol yn thema gyfarwydd mewn diwylliant Cymreig oherwydd perthynas ddiwylliannol a gwleidyddol y genedl â Lloegr. Mae cymunedau lleiafrifoedd ethnig yn rhan o'r frwydr yma, sy'n bodoli eisoes, dros oroesiad y Gymraeg, ac mae arsylwadau'n nodi fod pobl Ddu a De Asiaidd wedi bod yn defnyddio'r Gymraeg ers canrifoedd (Brooks 2021, 1). Ganwyd y Gymraeg o amrywiaeth, cyfuniad o ddiwylliant Romano a Phrydeinig, sy'n cyfleu fod y Gymraeg wedi bod yn iaith aml-ethnig erioed (ibid). Ar y llaw arall, mae'r dybiaeth mai dim ond pobl wyn sy'n siarad

Cymraeg wedi bod yn ffactor ymrannol o ran cydnabod pobl lleiafrifoedd ethnig yn rhan o ddiwylliant Cymru, neu hunaniaeth Gymreig (Sheppard, 2018).

2.3.2 Gwybodaeth Ddiwylliannol a Pharchu Diwylliannau Lleiafrifoedd Ethnig

Tan yn ddiweddar, doedd dim ymdrech genedlaethol sylweddol i ymgysylltu poblogaeth Cymru â hanes unigryw mewnfudwyr a diwylliannau lleiafrifoedd ethnig (Gwyn, 2012). Dengys astudiaethau fod hanes pobl Ddu ym Mhrydain, gan gynnwys rhai o dras Affricanaidd a Charibiaidd, yn mynd ymhellach na dechreuad ymdrechion gwladychol (Olusoga, 2018, 14; Adi, 2019, 2) a bod presenoldeb pobl Ddu ym Mhrydain Rhufeinig “wedi cael ei sefydlu ers sawl blwyddyn” (Adi, 2019, 3). Gellid gwreiddio hanes cudd pobl Ddu ym Mhrydain yn y ffaith fod pobl ddu oedd yn gaethweision yn methu â chael mynediad i wybodaeth am eu gwreiddiau a’u hanes, er mwyn eu gwneud nhw’n fwy dibynnol ar y gormeswyr (Bressey, 2007). Mae gwadu cydnabyddiaeth addysgol ac addysgiadol o wahaniaethau yn arwain at heriau pellach o ran eirioli dros gydraddoldeb (ibid).

Prin iawn y mae hanes lleiafrifoedd ethnig wedi’i gynnwys yn y cwricwlwm addysg (Adi, 2019, 3). Mae’r diffyg gwybodaeth am ddiwylliannau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig hefyd wedi’i adlewyrchu ymysg y gweithwyr proffesiynol sy’n addysgu, yn enwedig o ran triniaeth myfyrwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Mae diffyg gwybodaeth addysgwyr yn sbarduno diffyg cydymdeimlad i’r myfyrwyr hyn, gan arwain at fesurau disgyblu mwy llym na’r rhai y mae eu cyfoedion gwyn yn eu hwynebu (Brentnall, 2017). Mae gwahaniaethu o fewn addysg yn hanfodol o ran deall y gwahaniaethu yn y system farnwriaethol, gan fod lleiafrifoedd ethnig yn wynebu cyfraddau uwch o garchariad ac erlyniad oherwydd gwahaniaethu o’r fath (Goodman a Ruggiero, 2008). Mae wedi cael ei nodi hefyd fod myfyrwyr o gefndiroedd amrywiol wedi mynegi “angen am gynnwys mwy amrywiol a chynrychiolaeth gywirach o themâu lleiafrifoedd ethnig a chyfraniadau yn eu cwricwla” (Black, Asian and Minority Ethnic Communities, Contributions and Cynefin in the New Curriculum Working Group 2021, 8).

Yng Nghymru a Lloegr, mae lleiafrifoedd ethnig wedi dangos patrymau o glystyru daearyddol mewn clofannau trefol - patrwm a bennir gan y cyfleoedd economaidd sydd ar gael i leiafrifoedd ethnig. Clofannau yw “ardaloedd preswyl lle mae crynodiad o unigolion o leiafrifoedd ethnig” (Clark & Drinkwater 2002, 7). Mae ardaloedd o’r fath gyda chrynodiad uchel o leiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o fod â lleiafrifoedd o fewn y gweithlu lleol, ac yn fwy tebygol o benodi pobl o’u grŵp ethnig (Clark & Drinkwater 2002, 10). Mae hi’n llawer anos i leiafrifoedd ethnig elwa o fod yn rhan o’r mwyafrif yn y gweithlu y tu allan i fusnesau a berchnogir yn lleol.

3 Astudiaeth Achos: Casgliadau a Phrosiectau Ymgysylltiad Diwylliannol ar gyfer Cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

Achos 1	Black History Live
Dyddiadau	19/07/2016
Sefydliad a Chorff Cyllido	Trefnwyd y prosiect gan Gymdeithas Affricanaidd a Charibiaidd Medway, ac fe’i hariannwyd gan Gronfa Treftadaeth y Loteri.
Dolen (os yw’n berthnasol)	https://www.heritagefund.org.uk/our-work/exploring-kents-black-history https://www.blackhistorylive.org.uk/

Crynodeb Gweithredol	Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar ymchwilio unigolion Du dylanwadol yng Nghaint yn ystod yr 18fed a'r 19eg ganrif. Roedd yr ymchwilyr yn archwilio profiadau bywyd go iawn unigolion enwog ac fel arall. Bu i'r gwirfoddolwyr ymchwilio i'w profiadau drwy greu ffilmiau, gweithdai drama ac actio, arddangosfeydd a gynhaliwyd ar-lein, teithiau a'r digwyddiadau sy'n caniatáu i unigolion â diddordeb ddysgu mwy am hanes y ffigurau dylanwadol Du hyn. Ar gyfer unigolion a gafodd eu geni a'u magu yng Nghaint, roedd yr arddangosfa yn arwyddocaol o ran cynnig synnwyr o berthyn a balchder i'w gymunedau ethnig. Roedd y gwaith hefyd yn amlygu gwleidyddion, esgobion ac unigolion â statws brenhinol o dras Affricanaidd.
Gweithgareddau	• Mae pwyllgor ar waith gyda chefnogaeth sefydliadau partner a wnaeth gyfrannu at y prosiect yn defnyddio cyllid, cyfraniadau nad oeddent yn ariannol, cwnsela a chyfeiriad. • Nod y pwyllgor yw datblygu ac arsylwi'r gweithdai addysgiadol. • Mae'r pwyllgor yn bennaf yn cefnogi'r prosiect wrth gyllido digwyddiadau celf i unigolion allu dysgu ohonynt.
Heriau	Roedd hi'n anos caffael gwybodaeth ar forwyr, teilwriaid a cherddorion sydd â hanes o gaethwasiaeth yn yr ardal oherwydd cyfrifon a chofnodion cyfyngedig. Cyfrannodd yr unigolion hyn at ddiwylliant a thwff y wlad.
Deilliant	Nod y prosiect oedd creu synnwyr o falchder diwylliannol a gwybodaeth hanesyddol ym mhoblogaeth Ddu Caint.
Nodiadau	Mae'r prosiect hwn yn bodoli er mwyn rhoi gwybod i ddinasyddion Caint fod pobl Affricanaidd a Charibiaidd wedi bod yn ddylanwadol yn yr ardal.

Achos 2	Identities & Stories: Caribbean Takeaway Takeover in Essex
Dyddiadau	18/07/2017
Sefydliad a Chorff Cyllido	Trefnwyd y prosiect hwn gan Sefydliad Celfyddydau Everwright a Swyddfa Gofnodion Essex, ac fe'i hariannwyd gan y Gronfa Dreftadaeth.
Dolen (os yw'n berthnasol)	https://www.heritagefund.org.uk/our-work/identities-stories-caribbean-takeaway-takeover-essex https://evewright.com/caribbean-takeaway-takeover-identities-and-stories
Crynodeb Gweithredol	Arddangosfa yw'r prosiect hwn sy'n amlygu hanesion llafar, a'u cyflwyno nhw mewn Caffi Caribiaidd lleol o'r enw S&S Caribbean Café & Takeaway yn Colchester, Essex. Roedd gan ymwelwyr gyfle i ymgysylltu â'r diwylliant drwy fwyd a straeon. Roedd gan ymwelwyr gyfle i adrodd eu hanesion eu hunain ac ysgrifennu cardiau post i gael eu cyflwyno yn yr arddangosfa. Roedd gan ddeg o bobl hyn o dras Garibiaidd rannu eu straeon, ac roeddent yn bennaf wedi'u geni rhwng 1940 ac 1960. Diben y lluniau hyn yw creu profiad sy'n galluogi unigolion i deimlo fel eu bod nhw'n cael profiad o hanes ei gilydd, yn bennaf yn arwain at yr unigolion yn deall dyheadau ac atgofion yr henoed. Cafodd recordiadau sain gan

	y bobl hŷn eu chwarae hefyd yn y digwyddiad tra roedd yr unigolion yn mwynhau'r bwyd - creodd y prosiect amgylchedd diwylliannol Caribiaidd.
Gweithgareddau	- Mwynhaodd y gwesteion gofnodion hanes ar lafar gan bedwar o wirfoddolwyr ifanc. - Roedd yr ymwelwyr hefyd yn gallu mwynhau bwyd Caribiaidd ac edrych ar bortreadau o'r cyfranogwyr a oedd yn rhan o'r arolwg.
Heriau	Nid oedd rhai unigolion yn rhannu diddordeb mewn hanes Prydeinig, gan fod eu hanesion yn aml yn cael eu tangynrychioli, felly roedd hi'n anodd cael pobl i agor i fyny a rhannu eu straeon i ddechrau.
Deilliant	Roedd y prosiect hwn yn fuddiol i'r gymuned gan ei fod yn caniatáu i bobl ifanc ddysgu gan yr henoed a'u profiadau fel lleiafrif.
Nodiadau	Roedd amgylchedd y prosiect yn creu'r teimlad o ddal i fyny gyda hen ffrindiau wrth rannu eu straeon. Mae rhannu bwyd yn arwyddocaol yn ddiwylliannol, yn yr un modd â siop trin gwallt yn y gymuned Ddu, gan fod gwallt yn bwysig yn ddiwylliannol i'r gymuned Ddu, ac mae'n lle ble mae pobl yn rhannu straeon.

Achos 3	Fashioning Africa at Brighton Royal Pavilion & Museums
Dyddiadau	20/06/2008
Sefydliad a Chorff Cyllid	Cafodd y prosiect ei drefnu gan Bafiliwn Brenhinol ac Amgueddfeydd Brighton, a'i ariannu gan y rhaglen Collecting Cultures a noddwyd gan y Loteri Genedlaethol a'r Gronfa Dreftadaeth.
Dolen (os yw'n berthnasol)	https://www.heritagefund.org.uk/projects/fashioning-africa-brighton-royal-pavilion-museums
Crynodeb Gweithredol	Nod y prosiect yw denu eitemau newydd ar gyfer casgliadau hanesyddol y sefydliad a chreu datrysiadau newydd er mwyn datblygu casgliadau ar y cyd â phobl leol a chymorth allanol. Hefyd, nod y prosiect yw creu dysgu, cyfranogiad a rhaglenni ar-lein drwy adnoddau'r amgueddfa, llenwi bylchau ymchwil a chynnig cyfleoedd helaeth i wella cyfresi sgiliau unigolion yn y Pafiliwn ac Amgueddfeydd Brenhinol ac ymysg y cymunedau ethnig lleol. Mae rhanddeiliaid yn chwarae rhan hanfodol o ran bodloni'r targedau hyn.
Gweithgareddau	- Mae unigolion sy'n rhyngweithio â'r cynnwys yn cael cyfle i ddysgu am gelf, dillad, ffotograffiaeth ffasiwn a thecstilau. - Mae ymgynghorwyr, gwirfoddolwyr a myfyrwyr ymchwil yn cydweithio i greu lefel ymgysylltiad uwch a bodloni'r amcanion amrywiaeth. - Cafodd cynnwys ar-lein ei gynhyrchu i hyrwyddo'r arddangosfa a'r cyhoeddiad Fashion Cities Africa. - Bu i un arddangosfa benodol gael ei chynnal rhwng 2016 a 2017.
Heriau	Roedd y digwyddiad yn hynod lwyddiannus oherwydd y Panel Casglu a osodwyd wrth iddo arallgyfeirio'r broses benderfynu, casglu cofnodion ac ymgysylltiad gweithgareddau. Y gwrthdaro dan sylw yw torri'r diffyg cysylltiad rhwng y prisiau a delir am eitemau gyda gwerth personol a sentimental.

Deilliant	Mae'r prosiect yn fuddiol i'r gymuned gan ei fod yn cyflwyno amrywiaeth helaeth o bobl i'r pwnc treftadaeth. Mae cysylltiad newydd a llwyddiannus rhwng cymunedau a'r amgueddfa. Nawr, mae unigolion yn dysgu am ei hunaniaeth a'u treftadaeth ddeuol hyd yn oed.
Nodiadau	Mae'r Pafiliwn a'r Amgueddfeydd Brenhinol yn gweithredu fel goleufa yn goruchwyllo sawl amgueddfa celf a hanes ledled rhanbarthau Brighton a Hove yn Nwyrain Sussex. Genre'r gelf yw dylanwadau rhyngwladol a gwaith addurnol. Mae Amgueddfa'r Pafiliwn Brenhinol yn gweithio mewn partneriaeth â'r Rhwydwaith Treftadaeth Ddiwylliannol, ar gyfer unigolion sydd â diddordeb yn y celfyddydau a threftadaeth. Mae'r bartneriaeth hon wedi annog y Pafiliwn a'r Amgueddfa Frenhinol i arsylwi sut mae diwylliannau byd-eang wedi datblygu.

Achos 4	Oriel Gelf Wolverhampton: Celebrating the Black Arts Movement
Dyddiadau	30/09/2014
Sefydliad a Chorff Cyllid	Cafodd y prosiect hwn ei drefnu gan Oriel Gelf Wolverhampton a Mudiad y Celfyddydau Du, ac mae wedi'i ariannu gan y Gronfa Dreftadaeth.
Dolen (os yw'n berthnasol)	https://www.heritagefund.org.uk/projects/wolverhampton-art-gallery-celebrating-black-arts-movement
Crynodeb Gweithredol	Nod y prosiect yw deall treftadaeth Mudiad y Celfyddydau Du ar gyfer artistiaid modern wrth ryngweithio gyda chynulleidfaoedd o'r gymuned leol. O ganlyniad i hyn, yn ogystal â dod ag amrywiaeth i'r casgliad presennol, cafodd Rhaglen Curadwyr Ifanc Wolverhampton ei harallgyfeirio. Yn y pen draw, roedd cynrychioli Mudiad y Celfyddydau Du a'r gwaith celf yn y sefydliad yn flaenoriaeth. Roedd y prosiect yn canolbwyntio ar hanesion llafar a sgiliau ymchwil, ac roedd yr arddangosfa'n cynnwys pynciau megis hil, hunaniaeth, diwylliant a threftadaeth gyda chymorth gan grŵp celfyddydau ieuenctid Artforum Gold.
Gweithgareddau	• Roedd cyflwyniadau, ffilmiau, digwyddiadau a gweithdai ar gael, gan gynnwys ymchwil curadol. • Cafodd y gynulleidfa gyfle hefyd i ddysgu am Fudiad y Celfyddydau Du yn Wolverhampton. • Roedd y rhaglenni ymgysylltiad cyhoeddus yn annog pobl ifanc, gan ganolbwyntio ar ddynion ifanc Du er mwyn eu perswadio i fynegi eu meddyliau a'u syniadau. • Roedd dwy arddangosfa gyda gwaith gan 9 o artistiaid Du gyda thrawsgrifiadau o'u dylanwadau, eu gwaith a'u profiadau. Roedd hyn mewn partneriaeth gyda'r arddangosfa Back to Black.
Heriau	Nid oedd gan y prosiect lawer o wrthdaro ond yn hytrach roedd rhai heriau a gafodd eu goresgyn, megis dwyn ynghyd nifer fwy o ddynion Du sy'n cael eu tangynrychioli yn y celfyddydau.
Deilliant	Roedd yr amcan deilliant cynhwysiant wedi'i fodloni, gan i'r arddangosfa ddod yn fwy amrywiol. Mae cynrychioli lleiafrifoedd ethnig yn fuddiol i'r gymuned.

	Rhoddodd Collecting Cultures grant a wnaeth alluogi'r casgliad i ymestyn ei sgiliau a'i allu.
Nodiadau	Bellach, mae gan y prosiect enw da ac mae'n gallu denu rhagor o opsiynau cyllid ar gyfer y dyfodol. Roedd llwyddiant hefyd o ran denu statws o'r enw statws Sefydliad Portffolio Cenedlaethol Cyngor Celfyddydau Lloegr.

Achos 5	Diwylliant Nomadig Somalia yn cael ei archwilio drwy'r Byd Rhithwir
Dyddiadau	02/10/2018
Sefydliad a Chorff Cyllid	Cafodd y prosiect ei drefnu gan Kayd Somali Arts & Culture a'i ariannu gan y Gronfa Dreftadaeth.
Dolen (os yw'n berthnasol)	https://www.heritagefund.org.uk/our-work/nomad-somali-nomadic-culture-explored-through-virtual-world https://nomad-project.co.uk/
Crynodeb Gweithredol	Nod y prosiect oedd creu gofod a oedd yn rhannu gwybodaeth am arteffactau Somali drwy lwyfan ar-lein. Rhoddodd aelodau o'r gymuned wrthrychau Somali, a chynhaliwyd ymweliadau â chanolfannau storio amgueddfeydd. Er mwyn dod â'r gwrthrychau i fyw, enillodd yr ymwelwyr sgiliau digido. Cafodd y 4,500 o bobl a fynychodd Wythnos Gŵyl Somali yn 2018 yn Llyfrgell ac Amgueddfa Prydain gyfle i brofi delweddau o'r 1930au a synau o'r 1980au, oll gyda dylanwadau Somali. Roedd y sain yn cyfateb i wrthrychau oedd yn cael eu gweld er mwyn efelychu amgylchedd diwylliannol Somali. Gofynnwyd i'r gynulleidfa pa wrthrychau yr hoffent fynd adref gyda nhw pe bydden nhw ond yn cael cludo'r hyn roedden nhw'n gallu ei gario, fel bod angen meddwl o safbwynt nomad o Somalia.
Gweithgareddau	• Nod y Prosiect Nomad oedd creu profiad realiti cymysg dan bŵer Mnemoscene, a wnaeth ddatblygu'r Microsoft HoloLens. • Gall y gynulleidfa gael profiad o sawl recordiad sain, sy'n gweithredu fel haen i'r prosiect er mwyn ategu ac ychwanegu ystyr a gwerth i ddelweddau'r gwrthrychau, gyda synau wedi'u darparu gan y Llyfrgell Brydeinig, a delweddau gan yr Amgueddfa Brydeinig ac Amgueddfa Powell-Cotton. • Mae rhai hologramau yn cynrychioli pobl go iawn yn yr amgylchedd penodol.
Heriau	Ni chafodd unrhyw her ei rhestru, ond roedd angen defnyddio llawer o adnoddau er mwyn ail-greu amgylchedd lle gall synau a delweddau weithio gyda'i gilydd.
Deilliant	Nod y prosiect yw addysgu a rhoi gwybodaeth i bobl am ddiwylliant a dylanwadau Somali yn y Deyrnas Unedig.
Nodiadau	Gall cyfranogwyr rannu straeon mewn gweithdy ac ail-greu modelau 3D o wrthrychau personol y gallant ddod â nhw i mewn o'u casgliadau.

Achos 6	Windrush at 70: Recording and Sharing Migration Stories
Dyddiadau	27/06/2016
Sefydliad a Chorff Cyllid	Cafodd y prosiect ei drefnu gan y Prosiect Kingsway a'i ariannu gan y Gronfa Dreftadaeth.
Dolen (os yw'n berthnasol)	https://www.heritagefund.org.uk/projects/windrush-70-recording-and-sharing-migration-stories http://www.windrush70.com/
Crynodeb Gweithredol	Roedd y digwyddiad o'r enw "A Trip Down Memory Lane" yn amlygu 60 o straeon mudo a gynhaliwyd gan 15 o wirfoddolwyr a myfyrwyr. Roedd cerddoriaeth o'r 1960au a gwrthrychau a oedd yn sbarduno atgofion ymysg yr henoed a allai fod â demensia neu wedi anghofio rhai digwyddiadau. Ledled 15 o leoliadau, cynhaliwyd gwaith ymchwil mewn archifau a safleoedd treftadaeth er mwyn creu'r cynnyrch terfynol, sef arddangosfeydd untro. Roedd y Prosiect Kingsway yn ymgynghorydd i amgueddfeydd o ran sut i ymgorffori straeon mudo yn yr arddangosfa. Roeddent hefyd yn gweithio ar helpu i gau'r bwlch rhwng llyfrgelloedd ac ysgolion - ysgogodd y prosiect grwpiau allanol i fod eisiau deall mwy am yr Windrush.
Gweithgareddau	• Roedd wyth mil o lyfrynau hawdd eu deall yn addysgu unigolion am yr Windrush, gan gynnwys posau rhyngweithiol a gemau gwybyddol. • Roedd y llyfr gweithgareddau'n trafod ffeithiau pwysig ac yn herio materion ynghylch pŵer a chydaddoldeb.
Heriau	Ni restrwyd unrhyw heriau, ond efallai bod dod o hyd i ffordd o gyrraedd cynulleidfia ehangach drwy gyfieithu wedi gofyn am ymdrechion ychwanegol.
Deilliant	Waeth beth fo'r statws ethnigrwydd, diwylliant neu anabledd, mae gan bob cymuned fynediad i wybodaeth am Windrush fel y gallant ddeall cyfraniadau hanfodol pobl Garibiaidd i'r Deyrnas Unedig.
Nodiadau	Cafodd y straeon eu cyfieithu i wyth iaith a braille ar gyfer pobl ddall. Yna, cafodd y rhain eu rhannu drwy'r Rhyngrwyd, ar ffurf ffilm, digwyddiadau cymunedol, a llyfryn Gweithgareddau'r Windrush.

Achos 7	Consortiwm Ymchwil Metropolis Du: Menter Arolwg
Dyddiadau	12/2008
Sefydliad a Chorff Cyllid	Cafodd y prosiect ei drefnu gan Gonsortiwm Ymchwil Metropolis Du, a'i ariannu gan Brifysgol Chicago.
Dolen (os yw'n berthnasol)	https://www.lib.uchicago.edu/collex/exhibits/black-metropolis-research-consortium-fifteen-years-preserving-and-documenting-black-history-and-culture-chicago/survey-initiative/

Crynodeb Gweithredol	Roedd y prosiect hwn yn archwilio lle roedd casgliadau hanesyddol Du wedi'u lleol o fewn y ddinas a'r unigolion ynghlwm wrthynt, a'r rhwystrau posibl o ran cadw'r arddangosfa'n fyw. Bu i Gonsortiw Ymchwil Metropolis Du hefyd gasglu data ar sefydliadau lleol a'r unigolion oedd yn goruchwyllo'r casgliadau. Pwrpas hyn oedd dod ag ymwybyddiaeth i gynigion grant ac unrhyw beth arall a allai fod ei angen ar gasgliad. Hefyd, creodd y prosiect gronfa ddata ar-lein o'r holl wybodaeth am yr holl gasgliadau a arolygwyd, er mwyn creu cofnod prosiect.
Gweithgareddau	• Creodd y prosiect wefan o unrhyw gasgliadau a ymchwiliwyd. • Mae disgrifiadau o'r casgliadau a arolygwyd, lefel gwblhau, a hygyrchedd i ymchwiliwyr hefyd wedi cael eu hasesu. • Amlygwyd manteision y casgliadau. • Cynhaliwyd yr ymchwil ar ddulliau i gadw'r casgliadau a chynyddu hygyrchedd. • Bu i rai gweithdai ymchwilio hanes y casgliadau hanesyddol Du hyn.
Heriau	Cymrodd rai casgliadau ddiwrnodau i'w harolygu, ac roedd ymdrech i geisio dod ag ymwybyddiaeth i gasgliad fel bod modd iddo gael rhagor o gyllid.
Deilliant	Mae'r gymuned yn elwa o gydnabod fod y casgliadau hyn yn bodoli, fel nad ydynt yn cael eu hanghofio, ac yn derbyn cynrychiolaeth.
Nodiadau	Rhoddodd y cyhoedd sgôr hygyrchedd i'r casgliadau.

Achos 8	Asian Youth Culture
Dyddiadau	03/2018
Sefydliad a Chorff Cyllid	Cafodd y prosiect ei drefnu a'i ariannu gan Asian Youth Culture.
Dolen (os yw'n berthnasol)	https://asianyouthculture.co.uk/
Crynodeb Gweithredol	Nod y prosiect yw ymchwilio a deall hanesion pobl Asiaidd Prydeinig ifanc sy'n byw yn Birmingham. Roedd yn ymchwilio profiadau cyffredin neu brofiadau a rennir pobl ifanc Asiaidd, yn dechrau o'r 1950au, gan ofyn a oedd yr unigolion hyn yn meddu profiadau a rennir gyda datblygiad diwylliannol, addysg, chwaraeon a bod ynghlwm wrth daclo hiliaeth neu beidio. Gan fod yr amserlen yn mynd o'r 1950au hyd heddiw, gofynnwyd cwestiynau am sut roedd ieuenctid Asiaidd wedi setlo heddiw o gymharu â'r gorffennol ac os oedd unrhyw beth wedi newid o ran diwylliant, addysg, gwaith a thechnoleg.
Gweithgareddau	• Cynhaliwyd dwy arddangosfa oedd yn trafod ieuenctid Asiaidd yn cyrraedd ar ôl yr Ail Ryfel Byd. • Roedd y prosiect yn amlygu sut roedd ieuenctid Asiaidd wedi cyfrannu at fywyd cymdeithasol, diwylliannol a gwleidyddol Birmingham drwy arddangosfeydd a ffilmiau.

Heriau	Nid oedd unrhyw heriau wedi'u rhestru, roedd hi'n anodd cymharu pobl Asiaidd dros y blynyddoedd gan fod y cyfnod yn un hir ac yn gofyn am ryngweithio ag unigolion o genedlaethau gwahanol a gofyn iddynt orfod cymharu eu profiadau.
Deilliant	Mae'r prosiect hwn yn fuddiol i'r gymuned Asiaidd gan ei fod yn amlygu sut mae pobl Asiaidd wedi cyfrannu at gymdeithas, gan fireinio ymwybyddiaeth ddiwylliannol a hyder yn y gymuned.
Nodiadau	Roedd y prosiect hefyd yn cynnig digwyddiad gwyllo ffilmiau i ddechrau trafodaeth ar bobl ieuenctid Asiaidd, eu diwylliant a'u treftadaeth dros yr hanner canrif ddiwethaf yn Birmingham.

Achos 9	Prosiect Atgofion Caribiaidd
Dyddiadau	N/A
Sefydliad a Chorff Cyllid	Cafodd y prosiect ei drefnu gan y Prosiect Atgofion Caribiaidd a'i ariannu gan Kevin Adonis Browne, Prifysgol Syracuse, a Dawn Cumberbatch.
Dolen (os yw'n briodol)	https://www.caribbeanmemoryproject.com/
Crynodeb Gweithredol	Nod y prosiect yma yw creu ymwybyddiaeth gyhoeddus o gasgliadau diwylliannol, cymdeithasol a hanesyddol. Mae'n annog cyfranogiad gan unigolion â diddordeb ac yn sicrhau bod y casgliadau'n cael eu hysbysebu'n dda. Nod y prosiect yw amlygu nid yn unig sut mae pobl Garibiaidd yn ystyried eu hunain, ond hefyd sut mae pobl eraill yn ystyried pobl Garibiaidd.
Gweithgareddau	- Nod y prosiect yw cysylltu atgofion â lleoedd. Bydd angen i unigolion ymchwilio ac adfer atgofion wrth greu straeon er mwyn deall atgofion cyhoeddus y bobl Garibiaidd. - Mae'r prosiect yn credu y gall lleoliadau ffisegol sbarduno atgofion, a dyna sut caiff y naratifau hyn eu creu a'u gweithredu o fewn y prosiect.
Heriau	Ni chafodd unrhyw heriau eu rhestru, ond mae'n siŵr mai'r rhan fwyaf heriol o'r prosiect oedd dod o hyd i ffyrdd i bobl o dras Caribiaidd i adlewyrchu a chofio am eu profiadau bywyd.
Deilliant	Mae'r prosiect yn hynod fuddiol gan ei fod yn cyfleu yn naturiol hanes y bobl Garibiaidd drwy amlygu agweddau gwahanol ar eu diwylliant a threftadaeth.
Nodiadau	Mae'r prosiect yn cydnabod nad oes modd arbed pob arteffact, felly mae'n ceisio cadw beth bynnag a fydd yn dod i'r amlwg ac ychwanegu ystyr iddo drwy atgofion ei wirfoddolwyr.

Achos 10	Windrush Generational Project
Dyddiadau	08/2017
Sefydliad a Chorff Cyllid	Cafodd y prosiect hwn ei drefnu gan Windrush Generational Project a'i ariannu gan y Ganolfan Gymunedol Affricanaidd.
Dolen (os yw'n berthnasol)	https://africancommunitycentre.org.uk/projects/windrush-intergenerational-project/
Crynodeb Gweithredol	Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar fywydau'r genhedlaeth Windrush a'r trafferthion a gawsant gyda mewnfudo a setlo o India'r Gorllewin a symud i Abertawe. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar yr 1950au a'r 1960au a sut roedd diwylliant yn dylanwadu integreiddiad y bobl. Roedd y gwirfoddolwyr ifanc yn gallu meithrin sgiliau cyfweld a ffilmio drwy recordio'r henoed er mwyn deall eu profiadau mewnfudo a diwylliannol.
Gweithgareddau	• Cafwyd gweithdy hyfforddiant sgiliau celf, lle mae'r bobl ifanc yn dysgu arlunio a phaentio eu myfyrdodau a'u hatgofion, a'r hyn y maent wedi'i ddysgu gan yr henoed. • Cafodd y cyfweiliadau eu harddangos mewn cyflwyniadau. • Rhannwyd lluniau o Ddiwrnod Annibyniaeth Jamaica. • Hefyd, cynhaliwyd taith o'r Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd. Yma, dysgodd y bobl ifanc am gasgliadau a phrofiadau amrywiol unigolion o wledydd Affricanaidd a Charibiaidd. • Roedd hefyd hyfforddiant ar hanes llafar, lle dysgodd yr unigolion sut i recordio hanesion a fformatio eu fideos. • Cynhaliwyd taith i Sain Ffagan a Pharc Margam lle roedd un o'r henoed Windrush yn treulio amser yn y 70au a'r 80au gyda'i deulu.
Heriau	Doedd dim heriau amlwg, ond roedd hi'n debygol y byddai gwaith ychwanegol yn cau'r bwch rhwng y cenedlaethau.
Deilliant	Mae'r prosiect yn fuddiol i'r gymuned gan ei fod yn galluogi pobl ifanc i ryngweithio gyda'r henoed er mwyn deall mwy am eu diwylliant a sut mae wedi datblygu yn Abertawe. Y nod yw creu cysylltiad rhwng y cenedlaethau gwahanol.
Nodiadau	Mae'r prosiect yn gweithio mewn partneriaeth gydag oriel gelf Glenn Vivian a Tata Steel ym Mhort Talbot, lleoliad lle roedd rhai o'r bobl Windrush yn arfer gweithio. Roedd ganddynt enw da yno.

Achos 11	Prosiect CASBAH
Dyddiadau	2000-2002
Sefydliad a Chorff Cyllid	Trefnodd Prosiect CASBAH y prosiect, a chafodd ei ariannu gan y Rhaglen Llyfrgelloedd Cefnogi Ymchwil.
Dolen (os yw'n berthnasol)	https://webresources.articles411.com/casbah-caribbean-studies-black-and-asian-history/

Crynodeb Gweithredol	Nod y prosiect yw tracio adnoddau ymchwil posibl ar gyfer hanesion pobl Garibiaidd a phobl Asiaidd ym Mhrydain Fawr. Deallir y ffaith fod archifau'n canolbwyntio ar ddiwylliant, hunaniaeth a threftadaeth a chaiff hyn ei ategu gan y llywodraeth a llunwyr polisïau, a grwpiau sylfaenu sefydliadau sy'n cefnogi archifau.
Gweithgareddau	• Mae'r prosiect hwn yn arolygu deunyddiau sain a fideo ac yn eu cyhoeddi ar gronfa ddata ar-lein. • Mae nodweddion cyflawnadwy'r prosiect, gwybodaeth am sefydliadau partner, gwybodaeth am gynnydd ac adroddiadau arolygon archifau ar gael i'w gweld ar y wefan. • Mae gwybodaeth ar gael am gysylltiad y prosiect gyda'r newyddion, digwyddiadau, cyhoeddiadau, lluniau ac adnoddau gwerthfawr eraill.
Heriau	Doedd dim heriau amlwg i'r prosiect hwn, ond, mae'n debyg mai creu cysyniad er mwyn i unigolion gael eu hannog i ddefnyddio'r cyfryngau fwy nag unwaith oedd yr agwedd fwyaf heriol.
Deilliant	Mae'r prosiect hwn yn fuddiol gan ei fod yn creu ffordd hygyrch o ddysgu a deall profiadau'r bobl Garibiaidd ac Asiaidd, cyn belled ag y mae'r unigolyn â diddordeb yn gallu cael mynediad i'r rhyngrwyd. Roedd yr adnodd arolygu'r prosiect yn ddefnyddiol gan ei fod yn annog unigolion i ail-ddarllen y wybodaeth yr oeddent eisoes wedi'i hymchwilio am gasgliadau a'i hanfon ymlaen.
Nodiadau	Mae'r prosiect hwn yn ddibynnol iawn ar y Rhyngrwyd, felly'r prif adnoddau yw catalog ar-lein a gwefan.

Achos 12	Straeon Mudo Caerdydd
Dyddiadau	2012
Sefydliad a Chorff Cyllid	Mae'r prosiect hwn wedi cael ei drefnu gan Runnymede a'r Athro Claire Alexander o Brifysgol Manceinion, ac mae wedi'i ariannu gan y Sefydliad Creu Hanesion (Making Histories Organisation).
Dolen (os yw'n berthnasol)	http://www.makinghistories.org.uk/uploads/Cardiff%20Migration%20Stories%20210x210%2020pp%20v3.pdf
Crynodeb Gweithredol	Mae Caerdydd yn ddinas borthladd, sy'n golygu bod llawer o fynd a dod i mewn ac allan o'r ddinas yn y gorffennol. Mae'r prosiect wedi bod ar gael mewn gweithdai amrywiol ar gyfer pobl ifanc rhwng 12 ac 14 oed. Mae'r rhan fwyaf o'r unigolion hyn yn dod o ysgolion neu grwpiau cymunedol yng Nghaerdydd, Caerlŷr a Sheffield. Diben y prosiect oedd creu gweithdy hanes llafar. Y bobl a gynrychiolir yn y prosiect yw pobl ifanc wnaeth wneud y gwaith, a'r unigolion a gyfwelwyd. Mae un sampl o'r gwaith yn cael ei alw'n Diaspora Bengal, gan fod hyn yn un o'r pynciau a drafodir.
Gweithgareddau	• Bu i'r bobl ifanc gyfweld ag aelodau o'r teulu, athrawon ac aelodau'r gymuned er mwyn dysgu rhagor am eu straeon mewnffudo o'u gwlad enedigol i Gaerdydd.

	Gwnaethant greu llyfryn i amlygu straeon mudo a setlo drwy gydol hanes i ddysgu mwy am yr unigolion sy'n byw ac yn gweithio yng Nghaerdydd.
Heriau	Roedd dod o hyd i ddata dibynadwy a chywir ar gyfer unigolion oedd wedi mudo'n ddiweddar yn heriol. Roedd eu gwybodaeth wedi cael ei chyflwyno mewn amgueddfeydd ac archifau ar gyfer y grwpiau cynharach.
Deilliant	Mae'r prosiect hwn yn fuddiol i'r gymuned gan ei fod yn caniatáu i bobl o bob cyfandir adlewyrchu ar eu profiadau, mudo i Gaerdydd, ac ymgorffori straeon pobl ifanc fel y gallant ddechrau gwerthfawrogi eu cyndadau.
Nodiadau	Cafodd y dyfyniadau gan bobl ifanc eu recordio wrth iddynt siarad am yr hyn yr oeddent wedi'i ddysgu, gan wneud iddynt weithredu fel haneswyr ifanc.

Achos 13	Treftadaeth Durga Puja a Chreu Delweddau Clai yng Nghymru
Dyddiadau	2002/2009/2016/2017
Sefydliad a Chorff Cyllid	Cafodd y prosiect ei drefnu gan Bwyllgor Puja Cymru a'i ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'r Amgueddfa Hanes Cenedlaethol yn Sain Ffagan.
Dolen (os yw'n berthnasol)	https://www.peoplescollection.wales/items/509441
Crynodeb Gweithredol	Nod y prosiect hwn yw ymchwilio hanes yr Ŵyl Druga Puja yn Ne Cymru. Bydd y prosiect hwn yn canolbwyntio ar y cyfnod o'r 1970au hyd heddiw. Caiff hanesion ar lafar eu recordio yn y prosiect er mwyn deall tarddiad yr ŵyl yn India. Mae llawer o agweddau artistig ar y prosiect, gan gynnwys creu clai a hanes arferion creu clai o'r fath ar ôl iddynt gael eu cludo i Gymru. Crewyd archif digidol o'r stori. Defnyddir cynnwys digidol er mwyn ail-greu'r profiadau a drafodwyd.
Gweithgareddau	- Ar gyfer y prosiect, cafodd delweddau clai gwir faint eu creu a'u lleoli yng Nghanolfan Hanes a'r Celfyddydau Butetown, Cei'r Fôr-forwyn, Caerdydd. - Bydd y myfyrwyr yn ymgysylltu ag artistiaid clai traddodiadol o India drwy Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd. Bydd darlithoedd a gweithdai ar gael. - Mae'r dosbarthiadau hyn yn ymwneud ag astudiaethau crefyddol a chelf. - Ar ôl i'r prosiect ddod i ben, bydd ffilm, sain a delweddau'n cael eu creu er mwyn sicrhau archif y prosiect.
Heriau	Doedd dim heriau amlwg. Fodd bynnag, mae'n debyg mai olrhain tarddiad a dechreuad yr ŵyl oedd yr agwedd fwyaf heriol, gan fod angen i'r ymchwilwyr fynd drwy gofnodion hŷn o India.
Deilliant	Mae'r prosiect hwn yn fuddiol i'r gymuned gan y gall pobl ddysgu am eu diwylliant eu hun o ddeall ei darddiad.

Nodiadau	Mae'r prosiect hwn ar agor i'r cyhoedd fel bod modd i'r gymuned ddysgu am hanes eu pobl.
-----------------	--

Achos 14	Casgliad Hanes Llafar Tiger Bay
Dyddiadau	Ebrill 2017
Sefydliad a Chorff Cyllido	Y Llyfrgell Brydeinig, Cyllid o Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol
Dolen (os yw'n berthnasol)	https://www.tigerbay.org.uk/ www.hcearchive.org.uk
Crynodeb Gweithredol	Nod prosiect Hanes Llafar Tiger Bay oedd cadw'r seiniau a'r hanesion llafar a gasglwyd gan Ganolfan Hanes a Chelfyddydau Bluetetown yn ystod y 1980au a'r 90au. Mae'r casgliad llafar hwn yn storio straeon mewnfudwyr a'u profiadau a'u diwylliant, gan helpu cenedlaethau a thrigolion newydd i ddysgu am ddeinameg gymdeithasol gwahanol gymunedau mudol sy'n uno i fod yn un, gan ymdrechu ar yr un pryd i gadw eu hunaniaeth eu hunain.
Gweithgareddau	• Cyfweiliadau i gofnodi cyfnod penodol o hanes • Cadw sain • Cyflwyno rhaglen o weithgareddau dysgu ac allgymorth ledled y DU, gan gynnwys gweithdai, digwyddiadau dysgu ar gyfer teuluoedd, teithiau cyhoeddus, arddangosfeydd
Heriau	Mae digido'r casgliadau wedi bod yn galw am amser ac adnoddau dynol ers blynnyddoedd lawer.
Canlyniad	Helpodd y prosiect Casgliad Hanes Llafar i gynyddu ymwybyddiaeth a gwybodaeth ddiwylliannol am gymunedau lleiafrifol yn ystod y 1980au a'r 90au a helpu i gadw recordiadau sain prin mewn perygl. Mae'r prosiect 'Gwarchod y Straeon' yn parhau ac yn gwahodd gwirfoddolwyr i helpu i sicrhau bod y casgliad ar gael mewn archif ar-lein.
Unrhyw sylwadau neu nodiadau	Mae'r Prosiect 'Gwarchod Straeon Bae Tiger' yn parhau i daflo a chofnodi eu casgliadau mewn archif ar-lein.

4 Modiwlau Amrywiaeth Ethnig i Sefydliadau Diwylliannol

4.1 Amrywiaeth Ethnig yn y Sefydliad

Yn y gorffennol, mae llawer o ffynonellau gwahanol wedi adrodd diffyg amrywiaeth yn y gweithlu ac mewn swyddi rheoli yn y sector diwylliannol yng Nghymru. Yn ôl data a gyflwynwyd yn Adroddiad Blynnyddol Cydraddoldeb Cyflogwyr Cymru, o ran hil, mae gweithlu Cymru yn cynnwys 91% o bobl wyn a 2% o bobl o ethnigrwydd gwahanol (Adroddiad Blynnyddol Cydraddoldeb Cyflogwyr Cymru 2018). Ar y llaw arall, adrodd Cyngor y Celfyddydau Cymru fod lleiafrifoedd yn cael eu tangynrychioli ar fyrddau rheoli sefydliadau yr oedd y cyngor yn eu hariannu (Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2020-2024, 3). Oherwydd hyn, mae cynrychiolaeth gyfyngedig pobl o leiafrifoedd ethnig mewn sefydliadau diwylliannol yng Nghymru yn waeth byth gan nad ydynt yn aml yn gweithio mewn swyddi rheoli.

Mae goruchafiaeth gwyn yn fater systemig sy'n effeithio ar bob agwedd ar ein bywydau. Disgrifia Frances Lee Ansley oruchafiaeth gwyn fel a ganlyn:

By 'white supremacy' I do not mean to allude only to the self-conscious racism of white supremacist hate groups. I refer instead to a political, economic and cultural system in which whites overwhelmingly control power and material resources, conscious and unconscious ideas of white superiority and entitlement are widespread, and relations of white dominance and non-white subordination are daily re-enacted across a broad array of institutions and social settings. (Ansley 1989, 1024)

Yn hyn o beth, mae gwahaniaethu systemig yn effeithio ar bobl o leiafrifoedd ethnig mewn cylch dieflig gan fod braint, mentoriaeth a chynnydd gyrfaol yn gysylltiedig â'i gilydd. Beth gall y sector diwylliannol ei wneud i groesawu ac eirioli dros amrywiaeth yn eu sefydliadau?

Dylai'r cam gweithredu cychwynnol ar y lefel sefydliadol gynnwys adolygiad critigol, neu bennu datganiad amrywiaeth a chynhwysiant sefydliadol, neu athroniaeth os nad yw datganiad o'r fath wedi cael ei gynhyrchu eisoes. Gall athroniaeth amrywiaeth a chynhwysiant fod yn rhan o werth neu ddatganiad o weledigaeth sydd eisoes yn bodoli. Rhaid i ddatganiad adlewyrchu ymrwymiad y sefydliad i gynhwysiant a goddefgarwch o ran iaith a chynnwys, drwy greu gweledigaeth ystyrlon a realistig o arferion gwrth-wahaniaethu. Dylai sefydliadau achub ar y cyfle hwn i ddod â'u gweithwyr ynghyd i gael trafodaeth gydweithredol ar beth maen nhw'n meddwl sy'n bwysig i'r sefydliad a pha fathau o athroniaethau amrywiaeth a chynhwysiant sydd fwyaf perthnasol a gweithredadwy yn realistig. Wrth baratoi'r datganiadau hyn, dylai sefydliadau geisio peidio â chynnwys ffug addewidion neu athroniaethau sy'n mynd y tu hwnt i allu'r sefydliad, ac yn hytrach, dylid ceisio canolbwyntio ar y ffyrdd mwyaf effeithlon ac effeithiol y gallant daclo hiliaeth a gwahaniaethu. Dylai'r cynllun neu'r datganiad amrywiaeth ganolbwyntio ar strwythurau yn hytrach nag achosion neu unigolion unigol, a dylai gynnwys ymrwymiad hirdymor gan bob aelod staff. Golyga hyn y dylid rhoi newidiadau angenrheidiol ar waith a gweithredu strwythurau er mwyn osgoi achosion o'r fath, yn hytrach na rheoli materion penodol am wahaniaethu a gwyngalchu² ar sail achosion ac ar ffurf datrysiadau untro.

Wrth adolygu neu greu datganiad amrywiaeth a chynhwysiant newydd, dylai sefydliadau gwestiynu pa fath o raglenni a systemau sydd ganddynt ar waith i gefnogi'r datganiad hwn. Mae'r adolygiad hwn yn cynnwys gwybodaeth systemig o'r broses benodi i systemau hyrwyddo a dangosyddion perfformiad sefydliadol. Rhaid i'r athroniaeth amrywiaeth a chynhwysiant ddod yn rhan o systemau metrig gwerth sefydliadau a fydd yn cael eu hymgorffori i arferion bob dydd. Pan ofynnir iddynt am eu profiadau bywyd go iawn o weithio yn y sefydliad, a yw gweithwyr lleiafrifoedd ethnig yn meddwl fod yr athroniaeth amrywiaeth a chynhwysiant yn gwneud, neu'n mynd i wneud gwahaniaeth positif i'w amodau gwaith a chynnydd gyrfaol? Hefyd, mae angen i sefydliadau gwestiynu sut mae'r athroniaeth amrywiaeth a chynhwysiant wedi newid arferion a diwylliant sefydliadol. Eto, y man cyswllt cyntaf ar gyfer hyn yw profiadau bywyd go iawn gweithwyr lleiafrifoedd ethnig y sefydliad.

² Yn ôl Geiriadur Caergrawnt, mae gwyngalchu yn golygu "gwneud i rywbeth drwg ymddangos yn dderbyniol drwy guddio'r gwir". Yng nghyd-destun gwahaniaethu hiliol, mae gwyngalchu yn golygu bychanu llwyddiannau pobl ad ydynt yn Wyn wrth amlygu rhai pobl Wyn. Gall hefyd gyfeirio at ffigurau Gwyn yn hawlio cydnabyddiaeth amhriodol ac adnoddau sy'n deillio o waith pobl nad ydynt yn Wyn. Hefyd, yn ddiwylliannol mae gwyngalchu yn golygu diffyg cynrychiolaeth pobl o leiafrifoedd ethnig mewn cynnyrch diwylliannol megis gwaith celf, llenyddiaeth a chyfryngau eraill.

Ydyn nhw wedi profi gwahaniaethu ers dechrau gweithio i'r sefydliad? A gafodd hynny ei drin yn effeithiol? Beth fyddai angen newid i osgoi gwahaniaethu a hiliaeth yn y sefydliad?

Er mwyn i'r athroniaeth amrywiaeth a chynhwysiant ddod yn rhan o'r system sefydliadol, dylai sefydliadau hefyd dreulio amser yn pennu systemau cofnodi newydd, neu'n adolygu hen systemau, o ran amrywiaeth. Bydd cwmpas y system adolygu hon yn dibynnu ar faint ac adnoddau'r sefydliad. Gallai gweithgareddau adolygu amrywio o asesu amrywiaeth cyflenwyr ledled y sefydliad, gwasanaethau cwsmeriaid, mynediad i iaith a llywodraethu i gyfarfodydd rheolaidd gyda gweithwyr o leiafrifoedd ethnig mewn sefydliadau llai.

Agwedd hanfodol ar unrhyw gynllun amrywiaeth yw perchnogaeth lawn gan arweinwyr y sefydliad. Dylai arweinwyr arddangos ymrwymiad amlwg i amrywiaeth a chynhwysiant. Hefyd, dylent alluogi gweithwyr i gael eu clywed a'u parchu yn ôl gwahaniaethau a ffiniau diwylliannol. Ni ddylid cymryd yn ganiataol fod gweithwyr o leiafrifoedd ethnig yn ffynonellau gwybodaeth, oni bai bod cyfrifoldeb o'r fath yn rhan o'r disgrifiad swydd. Drwy gydweithio gyda gweithwyr lleiafrifoedd ethnig a gweithwyr eraill, dylai arweinwyr geisio sicrhau bod cymaint o weithwyr ag sy'n bosibl ynghlwm wrth gynnydd ystyrlon tuag at sefydliad mwy cynhwysol a gwrth-hiliol.

Gall gweithgareddau amrywiaeth a chynhwysiant cychwynnol yn sefydliadau gynnwys parchu cymunedau a thiroedd y mae'r sefydliad wedi cael ei adeiladu ganddynt ac arnynt. Yn achos sefydliadau diwylliannol yng Nghanaada ac UDA, gall hyn fod yn cydnabod yn gyhoeddus y tir y mae wedi cael ei adeiladu arno fel tir a oedd yn perthyn i bobl frodorol/diwylliannau/llwythi i ddechrau. Yn achos Cymru, dylai sefydliadau gael gwybodaeth hanesyddol ar sut cafodd ei sefydlu. Mae'n bosibl fod adeiladau cyhoeddus wedi cael eu hadeiladu gan gaethweision neu eu hariannu gan fasnachwyr caethweision, neu drwy lafur neu gyllid/adnoddau a ddaeth i'r amlwg drwy gam-fanteisio ar bobl a wladychwyd. Ar gyfer y gweithgaredd hwn, gall sefydliadau ymchwilio hanes eu sefydliad a sut, ble, gan bwy ac ym mha ffordd y cafodd ei sefydlu a chydabod hyn wrth ddod i mewn i'r sefydliad, yn ogystal â mewn unrhyw lyfyrnau neu dudalennau ar-lein ynghylch disgrifiad neu hanes y sefydliad.

4.2 Amrywiaeth Ethnig yn y Casgliadau

4.2.1 Cynrychiolaeth Awduraeth Amrywiol

Mae'r mater o amrywiaeth ethnig yr awduron a'r artistiaid a gynrychiolir mewn casgliadau yn bryder canolog arall, sydd o bosibl yn fwy perthnasol i lyfrgelloedd ac amgueddfeydd nag archifau. Nid yw cynrychioli amrywiaeth ethnig mewn cynnwys bob amser yn cyfateb i gydnabod grŵp o awduron sy'n amrywiol o ran ethnigrwydd. Nododd Cyngor y Celfyddydau Cymru mai dim ond 8 o'r 173 o gynigion (4.6%) a dderbyniwyd gan 145 o sefydliadau gwahanol i raglen cyllid y Loteri CCC yn 2019/20 oedd dan arweiniad artistiaid Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Ymhellach i hyn, roedd data ar artistiaid unigol yn dangos prinder tebyg o ran cyllid a dderbyniwyd gan artistiaid o leiafrifoedd ethnig (Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2020-2024, 3).

Dylid cydnabod pob grŵp creadigol, waeth beth fo'i gefndir ethnig, am ei gyfraniadau a'i lwyddiannau. Dylid egluro i ddefnyddwyr awduron sydd wedi cael eu gormesu'n hanesyddol sydd yn ddienw, neu y mae eu henwau wedi cael eu disodli gydag enwau'r gormeswyr.

Dylai sefydliadau diwylliannol ystyried y galw am yr eitemau a gasglwyd, a ysgrifennwyd neu a gynhyrchwyd gan awduron ag ethnigrwydd amrywiol o fewn eu cyllideb a'u cwmpas. Mewn

achosion llai, gall galw a chyflenwad greu proses gylchol lle gall yr amgylchedd ymddiriedaeth a grëir drwy fentrau llawr gwlad annog cyfraniadau gwirfoddol gan awduron o leiafrifoedd ethnig. Gall hyn fod oherwydd bod y sefydliadau llai a'r grwpiau sydd wedi creu cysylltiadau gyda chymunedau lleiafrifoedd ethnig yn eu hardal yn gallu ymgorffori a rhannu'r cyfraniadau yn well gan unigolion yn y cymunedau hyn o gymharu â sefydliadau mwy lle mae caffaeliad yn dibynnu ar brosesau mwy strwythuredig. Mae hyn yn dangos rôl hanfodol sefydliadau llawr gwlad fel safleoedd lansio ymgysylltiad ag awduron diwylliannol a chynulleidfaoedd a defnyddwyr diwylliannol.

4.2.1 *Cynrychiolaeth o ran Cynnwys*

Er ei fod yn rhan hanfodol o fentrau amrywiaeth a chynhwysiant, dylai pob asiant sydd ynghlwm wrth y prosiect hwn gydnabod nad yw casgliadau amrywiol yn cynrychioli gwrth-hiliaeth yn ei hun. Dylai sefydliadau geisio sicrhau cydbwysedd o ran yr anghyfartaledd deunyddiau sy'n cynrychioli profiadau bywyd go iawn pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru. O ran y cwricwlwm ysgol yng Nghymru, mae'r adnoddau ynghylch lleiafrifoedd ethnig yn canolbwyntio mewn ffordd anghyfartal ar themâu caethwasiaeth, Gwladychu ac Ymerodraeth (Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd 2021, 8). Mae cyfleu hiliaeth mewn hanes mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar hen arferion yn fath o naratif gwahaniaethol sy'n helpu'r gormeswr i hawlio diwedd i arferion gwahaniaethol o'r fath. Gall sefydliadau diwylliannol gyfrannu at amrywio adnoddau'n ymwneud â phrofiadau bywyd go iawn lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru a tharfu ar naratif o'r fath drwy ddatgelu eu heriau ôl-wladychol parhaus i gynnal cymdeithas gynhwysol nad yw'n hiliol. Gellid gwneud hyn drwy ystyried profiadau pob cymuned lleiafrif ethnig a thrwy dalu sylw mwy cyfrannol i gyfnodau cyn ac ar ôl diwedd gwladychu.

Gall sefydliadau asesu eu casgliadau presennol a buddsoddi amser yn ehangu ystod eu caffaeliadau er mwyn cael cynnwys gyda chynrychiolaeth sy'n fwy amrywiol o ran ethnigrwydd. Gall sefydliadau gysylltu â'u defnyddwyr, ymchwilwyr, myfyrwyr, cyhoeddwyr a chyflenwyr er mwyn dechrau ar y broses o amrywio eu casgliadau i'w gwneud nhw'n fwy cynrychioladol o leisiau a hunaniaethau amrywiol sydd wedi cael eu gormesu yn hanesyddol. Dylid curadu ac arddangos eitemau'n ymwneud â chymunedau myl yn hanesyddol a chymunedau sy'n cael eu tangynrychioli megis pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru ar y cyd â'r cymunedau hyn.

Dylid rhoi gwybod i ddefnyddwyr am y caffaeliadau hyn a sut maen nhw'n arwyddocaol i hanes pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru, yn dibynnu ar b'un a ydynt yn ddogfennau archif, llyfrau neu waith celf. Dylai sefydliadau ystyried materion hygyrchedd diwylliannol megis rhwystrau iaith wrth gysylltu defnyddwyr lleiafrifoedd ethnig â'u casgliadau. Er enghraifft: defnyddio geirfa gynhwysol o'r diwylliant a gynrychiolir wrth brosesu dogfennau, catalogau a labeli amgueddfeydd.

Mae angen i gynnwys ysgrifenedig o'r fath hefyd gydnabod anghyfiawnder, gwahaniaethu a heriau hiliol yn y gorffennol a'r presennol i bobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru ac ym mhob rhan o'r byd. Dylai sefydliadau adolygu'n rheolaidd eu methodolegau creu cynnwys er mwyn ymgorffori gwybodaeth gwrth-wahaniaethol a gwrth-hiliol. Gall y wybodaeth hon gyfeirio at arwyddocâd hanesyddol a gwleidyddol eitem benodol a'r amgylchiadau o amgylch ei gaffaeliad. Yn fwy diweddar, mae taith rithwir o'r enw "The Unfiltered History Tour" wedi gwneud hi'n bosibl i ymwelwyr Amgueddfa Prydain ddatgelu hanesion yr eitemau, pa ddulliau a roddwyd ar waith i'w symud nhw o'r wlad wreiddiol a chyfle i weld yr eitemau hynny yn eu lleoliadau bwriedig gan ddefnyddio technoleg deallusrwydd artifisial (AI) mewn amser go iawn.

4.3 Amrywiaeth Ethnig Defnyddwyr

4.3.1 *Creu amgylchedd diogel a chroesawgar*

Mewn rhai achosion, mae'n well gan ddefnyddwyr gael rhyngweithio wyneb yn wyneb i sbarduno ymgysylltiad â sefydliadau diwylliannol megis archifau, llyfrgelloedd ac amgueddfeydd yn hytrach na chwilio am wybodaeth ar barthau ar-lein ac mewn hybiau gwybodaeth. Er mwyn i gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ymgysylltu'n gyson â sefydliadau diwylliannol megis archifau, llyfrgelloedd ac amgueddfeydd, mae angen i'r sefydliadau hyn (fel pob sefydliad) ddarparu gofodau diogel i bobl lleiafrifoedd ethnig a pheidio â goddef bwlio neu drais ar lafar neu gorfforol. Un o'r ffactorau sy'n dirywio amgylchedd o'r fath yw arferion sy'n hiliol yn systemig nad ydynt o bosibl i weld yn fath o wahaniaethu hiliol i'r rhai nad ydynt yn ddioddefwyr, gan gynnwys proffilio hiliol. Math cudd o hiliaeth yw proffilio hiliol, drwy seilio barn a gweithrediadau hiliol ar systemau meddwl presennol.

Dylai staff geisio peidio â mynd at ymwelwyr o leiafrifoedd ethnig gyda thybiaethau am eu diddordebau. Gall argymhellion digroeso o'r fath ar sail edrychiad allanol neu'r iaith a ddefnyddir gan yr ymwelwyr gael ei ystyried yn ficro-ymddygiad ymosodol oni bai bod yr ymwelydd o leiafrif ethnig yn benodol yn gofyn am gymorth i ddod o hyd i neu weld casgliadau sy'n berthnasol i'w hunaniaeth ethnig.

Hefyd, dylai staff yn y sefydliadau hyn gael hyfforddiant i beidio â bod yn wylwyr tawel bwlio neu drais hiliol rhwng ymwelwyr/defnyddwyr drwy ddeall eu hawliau nhw, a hawliau'r ymwelwyr. Dylid darparu hyfforddiant gorfodol er mwyn iddynt adnabod a rheoli sefyllfaoedd lle na all pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig elwa ar eu sefydliadau oherwydd anghyfforddusrwydd a greir gan ficro-ymddygiad ymosodol hiliol gan ymwelwyr eraill. Dylid rhybuddio staff y mae'n bosibl fod pobl sy'n ymddwyn fel hyn yn dod yn ddig iawn o gydnabod a datgelu eu hagweddau hiliol. Felly, mae angen i hyfforddiant i staff yn y maes hwn fod yn drylwyr er mwyn amddiffyn hawliau a llesiant staff ac ymwelwyr.

4.3.2 *Adnabod Hybiau Cymunedol*

Gall hybiau cymunedol gynnwys hybiau'r sector diwylliannol a mathau eraill o hybiau. Mae hybiau cymunedol sy'n rhan o'r categori sector diwylliant yn gallu cynnwys sefydliadau celfyddydol ar lawr gwlad, grwpiau darllen neu glybiau llyfrau, grwpiau celf a chreffft megis gwnïo a gwehyddu a stiwdios a dosbarthiadau celf lleol.

Gall pobl o leiafrifoedd ethnig gynnal cysylltiadau cryf gyda phobl eraill sy'n rhannu'r un profiadau; felly, mae adnabod mathau eraill o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn yr ardal leol yn ddull effeithiol o greu ffocws ar gyfer ymdrechion ymgysylltu. Gall yr hybiau hyn fod yn genedlaethol, crefyddol, enwadol neu gymunedau ar sail rôl gymdeithasol megis henuriad Mwslimaidd neu grwpiau ar-lein i famau newydd o Nigeria.

4.3.3 *Ymgysylltu â myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig*

Mae ysgolion yn ganolfannau effeithiol eraill ar gyfer ymgysylltu â chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru. Mae ysgolion yn darparu cysylltiadau â'r cymunedau lleiafrifoedd ethnig drwy genedlaethau gwahanol o ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig. Hefyd, gall ysgolion fod yn effeithiol iawn o ran arddangos y cysylltiadau diwylliannol posibl y gall y disgyblion hyn eu cael o fewn archifau, llyfrgelloedd a chasgliadau mewn amgueddfeydd. Gall y cysylltiadau hyn gryfhau perthnasoedd disgyblion o leiafrifoedd ethnig â'r sefydliadau diwylliannol hyn drwy gynrychiolaeth ac felly, gall greu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â disgyblion a'u teuluoedd.

4.3.4 *Cyfleoedd Ymgysylltu yn y Gymuned*

Ar ôl cynnal cysylltiadau cynaliadwy gyda chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn yr ardal leol, dylai sefydliadau ymgynghori ar brofiadau bywyd go iawn y cymunedau hyn er mwyn datblygu a chynnal arferion mwy cynhwysol a gwrth-hiliol.

Un o agweddau mwyaf hanfodol ar ymgysylltu yw cyfathrebu, a dylai sefydliadau ymgorffori dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu amrywiol. Gall sefydliadau ymgynghori â chymunedau lleiafrifoedd ethnig yn yr ardal leol drwy ddulliau amrywiol megis arolygon, grwpiau ffocws a digwyddiadau rhannu syniadau er mwyn deall y bylchau cyfathrebu diwylliannol sy'n effeithio ar ddiffyg ymgysylltiad y cymunedau dan sylw. Gall sefydliadau ofyn i ymatebwyr sgorio eu sefydliad o ran pa mor gyffrous yw'r rhaglenni ac arferion presennol, dysgu am eu disgwyliadau gan y sefydliad a chael gwybod am eu profiadau bywyd go iawn er mwyn cael syniadau ar gyfer gwella.

Ffactor hanfodol arall o ran cynhwysiant yw cynrychioli diwylliannau amrywiol ac amlygu ystod eang o ddigwyddiadau a gwyliau crefyddol ac ethnig. Dylai sefydliadau gydnabod a dathlu crefyddau a diwylliannau amrywiol yn rhagweithiol, a chymryd rhan mewn gwyliau o'r fath. Dylai'r ymdrechion hyn fod dan arweiniad y gymuned, a chael eu llywio gan y gymuned, er mwyn osgoi camgynrychiolaeth neu amharchu ystyr a gwerth y defodau a'r arferion. Dylai sefydliadau arddangos pa mor bwysig yw cynrychioli'r gwyliau crefyddol a diwylliannol amrywiol hyn i'r cymunedau a gwahodd arbenigwyr a gwirfoddolwyr cymunedol er mwyn llywio a chyfrannu at y gweithgareddau hyn.

4.3.5 *Darganfod a Siapia Casgliadau gyda Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru*

Dylai sefydliadau fanteisio ar eu hathroniaeth amrywiaeth a chynhwysiant a'u cysylltiadau gwell gyda chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig er mwyn archwilio, adeiladu a siapia eu casgliadau diwylliannol ar y cyd â'r cymunedau hynny. Yn gyntaf, dylai sefydliadau bennu cwmpas ymgysylltiad o'r fath drwy restru unrhyw hawliau mynediad ac ymyrraeth bosibl gan aelodau o'r gymuned. Gall sefydliadau drefnu digwyddiadau megis grwpiau trafod lle bydd modd clywed am ddiddordebau a disgwyliadau cymunedau mewn lleoliad anffurfiol. Gall gweithgareddau ymgysylltu gynnwys ymweliadau ag archifau dan arweiniad a dadansoddi eitemau, grwpiau darllen a gweithgareddau cymunedol megis digwyddiadau caffael, arddangosfeydd a gwersi celf a chrefft. Bydd gweithgareddau o'r fath yn cryfhau'r cysylltiadau rhwng cymunedau a sefydliadau lleiafrifoedd ethnig drwy roi cyfle iddynt gydweithio a chreu ffyrdd newydd o greu, casglu, dadlau, arddangos a beirniadu drwy safbwyntiau ffres. Byddai gweithgareddau fel hyn yn helpu i ddatgelu a rhoi ystyr newydd i eitemau presennol mewn casgliadau a hefyd yn hyrwyddo'r broses o ddarganfod a chreu deunyddiau diwylliannol newydd sy'n cynrychioli'r boblogaeth amrywiol yng Nghymru.

5 Cwestiynau ar gyfer Gwaith Pellach ar Amrywiaeth a Chynhwysiant mewn Sefydliadau Diwylliannol

Rydym wedi creu sawl cwestiwn penagored ynghylch agweddau gwahanol ar wahaniaethu hiliol ac ethnig er mwyn ysgogi trafodaethau a chymunedau pellach o ran cysyniadau sy'n effeithio ar brofiadau bywyd go iawn pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru. Gall sefydliadau diwylliannol ddefnyddio'r cwestiynau hyn i sbarduno trafodaethau ehangach ar gynhwysiant, gwrth-hiliaeth a gwrth-wahaniaethu, asesu eu hymgysylltiad presennol gyda'r materion hyn a sbarduno ymgysylltiad â chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru. Dylai'r cwestiynau hyn gael eu trafod neu eu hastudio gyda chyfraniad gwerthfawr staff a defnyddwyr o leiafrifoedd ethnig.

5.1 Sut rydym yn dysgu i ystrydebu a chael ein hystrydebu

- Sut ydyn ni'n dechrau ystrydebu pobl?
- Beth yw ystrydeb, a sut gallai fod yn niweidiol i'r bobl sy'n cael eu hystrydebu?
- Pa ystrydebau sy'n gwneud inni deimlo'n anghyfforddus?
- Pa ystrydebau sy'n gwahaniaethu yn erbyn pobl Ddu, Asiaidd, Sipsiwn, Teithwyr, Roma, Iddewig, Mwslimiaid a Sîc?
- Sut ydyn ni'n herio'r ystrydebau hyn fel pobl nad ydynt yn ddioddefwyr?
- Sut ydyn ni'n dod yn "gynghreiriaid"³ gwrth-hiliol ystyrlon gyda phobl o leiafrifoedd ethnig y tu hwnt i ystrydebau a thocynistiaeth?
- A yw ein casgliadau yn cynnwys cynrychiolaeth ystrydebol o'r fath?
- Ydyn ni'n prosesu, trin a chyflwyno'r cynrychioliadau hyn gyda safbwynt beirniadol?

5.2 Mythau a realiti hanes Cymru a'r Deyrnas Unedig

- Beth yw ethnigrwydd, a pham cafodd y cysyniad hwn ei greu?
- Beth yw lleiafrif ethnig, a sut mae pennu lleiafrif?
- Pwy sy'n ysgrifennu hanes, a phwy sy'n disgrifio ac yn dosbarthu lleiafrifoedd ethnig gwahanol?
- Ydyn ni'n gwybod nad oedd pobl o dras ethnig amrywiol yn bodoli ym Mhrydain cyn gwladychu?
